Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai - Telerau ac Amodau Archebu

1. Proses Archebu:

1.1 Er mwyn archebu lle ar gyfer digwyddiad yng Nghyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai, rhaid i chi gyflwyno cais i archebu drwy'r ffurflen ar-lein.

1.2 Nid yw'r archeb wedi'i chadarnhau nes i chi dderbyn cadarnhad ysgrifenedig o'r archeb gan Gyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai.

2. Taliad:

2.1 Gallwch wneud taliadau BACS fel bydd yr anfoneb a gewch yn ei nodi.

2.2 Byddwch yn cael anfoneb am y swm llawn ar ôl y digwyddiad.

2.3 Rhaid talu o fewn 30 diwrnod i ddyddiad yr anfoneb.

3. Polisi Canslo:

3.1 Rhaid canslo yn ysgrifenedig gyda Rheolwr Busnes Tŷ Gwyrddfai.

3.2 Bydd canslo o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y digwyddiad yn arwain at dâl o 50% o gyfanswm cost yr archeb.

3.3 Bydd canslo o fewn 7 diwrnod i ddyddiad y digwyddiad yn arwain at dâl o 100% o gyfanswm cost yr archeb.

3.4 Yn unol â chymal 9, mae Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai yn cadw'r hawl i ganslo archeb mewn amgylchiadau annisgwyl. Mewn achosion o'r fath, cynigir ad-daliad llawn neu ddyddiadau eraill.

4. Newidiadau i Archeb:

4.1 Rhaid rhoi gwybod yn ysgrifenedig i Reolwr Busnes Tŷ Gwyrddfai am unrhyw newidiadau i'r archeb, gan gynnwys newidiadau i ddyddiadau a newidiadau i'r nifer sy'n mynychu, o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y digwyddiad. Bydd y rhain yn amodol ar argaeledd.

5. Ymddygiad a Chyfrifoldebau:

5.1 Rhaid i bob un sy'n mynychu lofnodi i mewn ac allan drwy'r derbynnydd rhithwir ym mynedfa Tŷ Gwyrddfai. Ni fyddant yn gallu cael mynediad i Gyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai heb wneud hynny. Bydd taflen gwybodaeth i ymwelwyr yn cael ei e-bostio at y sawl sy'n archebu ar ôl cadarnhau'r archeb.

5.2 Mae WiFi am ddim ar gael ym mhob rhan o Gyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai. Rhestrir manylion mewngofnodi yn y daflen wybodaeth i ymwelwyr y cyfeirir ati yng nghymal 5.1.

5.3 Bydd mynychwyr, asiantau, ac unrhyw drydydd parti yn parcio ar risg eu hunain.

5.4 Chi sy'n gyfrifol am ymddygiad y rhai sy'n mynychu ac unrhyw ddifrod a achosir i Gyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai neu unrhyw ran o Dŷ Gwyrddfai.

5.5 Mae Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai yn cadw'r hawl i ddod a digwyddiad i ben os byddwch chi, eich asiantiaid, neu'ch mynychwyr yn torri unrhyw un o bolisïau Adra (Tai) Cyfyngedig/Tŷ Gwyrddfai; mae hyn yn cynnwys y Polisi Iechyd a Diogelwch a osodir gan Adra (Tai) Cyfyngedig/Tŷ Gwyrddfai (mae copi ohono ar gael i chi).

5.6 Ni chaniateir i unrhyw anifeiliaid, ac eithrio anifeiliaid gwasanaeth, fynd i mewn i Gyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai nac unrhyw ran arall o Dŷ Gwyrddfai.

5.7 Ni chaniateir is-osod Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai.

5.8 Ni chewch ddefnyddio Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai nac unrhyw ran o Dŷ Gwyrddfai ar gyfer unrhyw weithgareddau sy'n beryglus, yn sarhaus, yn niweidiol, yn anghyfreithlon neu'n anfoesol, neu a allai fod yn niwsans i Adra (Tai) Cyfyngedig/Tŷ Gwyrddfai neu'r perchennog neu ddeiliad unrhyw eiddo cyfagos (er mwyn osgoi amheuaeth, ni chaniateir gweini a gwerthu alcohol).

6. Arlwyo:

6.1 Nid yw Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai yn darparu gwasanaethau arlwyo.

6.2 Os byddwch yn dewis y pecyn te/coffi, byddwch yn gallu helpu eich hun i de a choffi yn y ffreutur, sydd y tu ôl i Gyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai.

6.3 Gallwch helpu eich hunain i'r dŵr o'r peiriant oeri dŵr sydd wedi'i leoli yn y ffreutur yn rhad ac am ddim.

6.5 Os nad ydych yn archebu'r pecyn te/coffi ond yn dymuno defnyddio llestri Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai, cewch drefnu hyn gyda'r Rheolwr Busnes.

7. Atebolrwydd:

7.1 Nid yw Adra (Tai) Cyfyngedig/Tŷ Gwyrddfai yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i chi, eich asiantiaid, neu eiddo personol eich mynychwyr yn ystod eich defnydd o Gyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai.

7.2 Bydd Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai yn codi'r gost/traul arnoch chi o ran difrod, glanhau ychwanegol ac ati a achoswyd i'r cyfleuster cynadledda, ei eiddo, a'i offer gennych chi, eich asiantiaid, a'ch mynychwyr yn ystod eich defnydd o Gyfleuster Cynhadledd Tŷ Gwyrddfai.

7.3 Ni ddylech wneud unrhyw beth a allai annilysu unrhyw yswiriant sydd gan Adra (Tai) Cyfyngedig/Tŷ Gwyrddfai mewn perthynas â Chyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai neu a allai gynyddu'r premiwm yswiriant sy'n daladwy ar gyfer Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai.

7.4Rhaid i chi drefnu a chynnal eich yswiriant eich hun mewn perthynas ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac ar gyfer yr offer ac sydd gennych yn dod gyda chi i Gyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai ar gyfer y digwyddiad. Ni fydd yswiriant Adra (Tai) Cyfyngedig/Tŷ Gwyrddfai yn eich diogelu.

8. Cyfleusterau a Gwasanaethau:

8.1 Mae defnyddio Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai yn cynnwys defnyddio'r cyfleustodau sy'n gysylltiedig ag ef (gan gynnwys toiled), defnyddio peiriant golchi llestri yng nghegin yr ystafell gynadledda ar gyfer unrhyw lestri, a defnyddio 125 o gadeiriau y gellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw sesiynau grŵp.

8.2 Ni ddylid gosod bolltau, hoelion, taciau, sgriwiau, darnau, pinnau na gwrthrychau neu eitemau tebyg i unrhyw ran o Gyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai ac ni ddylid gosod unrhyw sylwedd gludiog yn unrhyw le.

8.3 Rhaid sicrhau eich bod yn adfer Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai fel ac yr oedd cyn y digwyddiad.

8.4 Ni chaniateir newid, symud neu ymyrryd â golau, gwres, pŵer neu ffitiadau neu offer trydanol eraill yng Nghyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai.

9. Force majeure

9. Mae cyfeiriad at Force Majeure yn y ddogfen hon yn golygu digwyddiad neu ddigwyddiadau y tu hwnt i reolaeth parti gan gynnwys tân, ffrwydrad o unrhyw fath, methiant neu esgeulustod ar ran unrhyw gyfleustodau sy'n cyflenwi trydan, nwy neu ddŵr, dadlau llafur, cynnwrf sifil, rhyfel, tân neu ffrwydrad neu unrhyw ddigwyddiad arall y tu hwnt i reolaeth y parti ac eithrio prinder arian y rhagwelir neu a fydd yn atal neu'n rhwystro'r parti rhag cyflawni ei rwymedigaethau;

9.2 Os yw Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai, oherwydd Force Majeure, neu os bydd amheuaeth na fydd yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau, yna bydd yn sicrhau ar unwaith eich bod yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiad o'r fath a bydd gennych yr hawl ar unrhyw adeg ar ôl y rhybudd, cyhyd â bod achos o'r fath yn dal i fodoli, i ganslo neu atal yr archeb drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i chi.

9.3 Mewn achos o ganslo neu atal yn unol â chymal 9.1 a 9.2 uchod, ni fydd Cyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai o dan unrhyw atebolrwydd i chi nac unrhyw drydydd parti arall am unrhyw golled a all ddigwydd o ganlyniad i unrhyw ganslo neu ataliad o'r fath.

Trwy gadarnhau archeb gyda Chyfleuster Cynadledda Tŷ Gwyrddfai, mae cleientiaid yn cytuno i gadw at y telerau ac amodau hyn.